PWYLLGOR CYNLLUNIO

DYDD IAU, 2 CHWEFROR 2023

PRESENNOL Y Cynghorydd W.T. Evans (Cadeirydd) (Yn y Siambr)

Cynghorwyr (Yn y Siambr):

S.M. Allen	J.M. Charles	P. Cooper	J.K. Howell
A.C. Jones	M.J.A. Lewis	E. Skinner	G.B. Thomas
D.E. Williams			

Cynghorwyr (Yn rhithwir):

T. Davies	M. Donoghue	N. Evans	J.D. James
J.P. Jenkins	D. Owen	R. Sparks	M. Thomas

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):
Y Cynghorydd B. Davies, a fu'n annerch y Pwyllgor ynghylch cais cynllunio rhif PL/05060

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
J. Thomas, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (Aman Gwendraeth)
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):
R. Griffiths, Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd
I.R. Llewelyn, Rheolwr Blaen-gynllunio
H. Rice, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu
Z.M. Baxter, Swyddog Rheoli Datblygu [Aman Gwendraeth]
Z.A. Evans, Uwch-dechnegydd [Cyswllt Cynllunio]
S. Hendy, Swyddog Cefnogi Aelodau
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP ac o bell- 10.00 yb - 3.50 yp

(NODER:

- Am 12.55pm tynnwyd sylw'r Pwyllgor at Reol 9 o Weithdrefn y Cyngor – Hyd y Cyfarfod – ac, oherwydd bod y cyfarfod eisoes wedi bod yn mynd rhagddo ers tair awr, penderfynwyd gohirio ystyried y rheolau sefydlog, yn unol â Rheol 23.1 o Weithdrefn y Cyngor, er mwyn galluogi'r Pwyllgor i gwblhau'r gwaith a oedd yn weddill ar yr agenda.
- Am 1.20pm gadawodd y Cadeirydd y cyfarfod a bu i'r Is-gadeirydd gadeirio
- Am 1.50pm cafodd y Pwyllgor egwyl ginio ac ailymgynullodd am 2.40pm)

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd D. Phillips.

2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Y Cynghorydd / Swyddog	Rhif y Cofnod	Y Math o Fuddiant
Y Cyng. S.M. Allen	3: PL/04018 – Gwaith Cynllunio Ôl-weithredol yn: Allen & Partners Veterinary Services – cwblhawyd yn 2016 – gan gynnwys gwelliannau i'r Cynllun Safle arfaethedig ar gyfer mynediad o'r briffordd ac iddi ar gyfer gwell cynllun safle a darpariaethau parcio. Mae'r gwaith hefyd yn cynnwys codi 2 Loches Canopi i ddarparu mynediad/lle aros dan do u tu allan i Allen and Partners Veterinary Surgery, Maes y Felin, Hendy-gwyn ar Daf, SA34 0QN	Mae ganddo gysylltiad personol agos ag un o'r ymgeiswyr
Y Cyng. M. Thomas	3: PL/04643 – Adeiladu wal gynnal gaergawell, Clayton House, Heol Gwscwm, Porth Tywyn, SA16 0BT	Wedi siarad â nifer o'r preswylwyr, ymweld â'r safle a siarad â'r ymgeiswyr ac ysgrifennu ar eu rhan

3. PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

3.1 PENDERFYNWYD caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-

W/39937	**Datblygiad preswyl arfaethedig ar dir ger Maes y Berllan, Llangyndeyrn, Cydweli, SA17 5BL**
PL/04018	**Gwaith Cynllunio Ôl-weithredol yn: Allen & Partners Veterinary Services - a gwblhawyd yn 2016 - gan gynnwys gwelliannau i'r Cynllun Safle arfaethedig ar gyfer mynediad o'r briffordd ac iddi ar gyfer gwell cynllun safle a darpariaethau parcio. Mae'r gwaith hefyd yn cynnwys codi 2 Loches Canopi i ddarparu mynediad/lle aros dan do y tu allan i Allen And Partners Veterinary Surgery, Maes y Felin, Hendy-gwyn ar Daf, SA34 0QN** (Noder: Roedd y Cynghorydd S.M. Allen wedi datgan buddiant yn gynharach yn y cais hwn; ailddatganodd y buddiant hwnnw a gadawodd y cyfarfod wrth i'r mater gael ei ystyried gan y Pwyllgor)
PL/04643	**Adeiladu wal gynnal gaergawell, Clayton House, Heol**

	Gwscwm, Porth Tywyn, SA16 0BT (Noder: Roedd y Cynghorydd M. Thomas wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach; ailddatganodd y buddiant hwnnw a gadawodd y cyfarfod wrth i'w mater gael ei ystyried gan y Pwyllgor)
PL/04823	**Amrywio amod 1 o Gais Cynllunio S/38106 (estyniad o ran amser], ar safle 5 a 6, tir ger hen Safle Grillo, Porth Tywyn, SA16 0LT**
PL/04824	**Amrywio Amod 1 o Gais Cynllunio S/38251 (er mwyn caniatáu 5 mlynedd ychwanegol ar gyfer cyflwyno materion a gadwyd yn ôl), hen Waith Grillo, Heol Harbwr, Porth Tywyn, SA16 0LY**
PL/04825	**Amrywio Amod 1 o gais cynllunio S/38105 (estyniad o ran amser) ar Safle 4, Harbwr Porth Tywyn (Dwyrain), Porth Tywyn, SA16 0LT**

3.2 PENDERFYNWYD gohirio rhoi ystyriaeth i'r cais canlynol er mwyn gallu ymweld â'r safle

PL/04430	**Datblygiad preswyl ar dir oddi ar Heol y Parc, Hendy, Abertawe, SA4 0XZ** (Noder: Am 1.20 p.m. wrth ystyried yr eitem hon gadawodd y Cadeirydd y cyfarfod. Bu i'r Is-gadeirydd yn cadeirio) Daeth sylw i law a wrthwynebai'r cais, ac a ailbwysleisiai'r pwyntiau y manylwyd arnynt yn adroddiad y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd a oedd yn cynnwys: • Gwrthwynebiadau gan 75 o breswylwyr lleol a'r Cyngor Cymuned • Diogelwch priffyrdd • Diffyg parcio oddi ar y stryd a pharcio i ymwelwyr • Roedd y CDLl wedi nodi'r safle ar gyfer 5 tŷ. Roedd y cais presennol ar gyfer 7 ac ni nodwyd y safle ar gyfer datblygiad o fewn y CDLl sy'n dod i'r amlwg • Colli cynefinoedd bywyd gwyllt a choridor bywyd gwyllt • Materion perchnogaeth tir • Cyflwyno cynlluniau diwygiedig ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori • Presenoldeb clymog Japan • Polisi Cynllunio 6 yn cefnogi gwrthod y safle Ymatebodd asiant yr ymgeisydd a'r Uwch-swyddog Rheoli Datblygu i'r materion a godwyd Yn dilyn y sylwadau uchod, cafodd ei gynnig a'i gario bod ystyriaeth o'r cais yn cael ei ohirio er mwyn gallu ymweld â'r safle i weld y safle mewn perthynas â phryderon y gwrthwynebwyr

3.3 PENDERFYNWYD gohirio ystyried y cais cynllunio canlynol tra'n aros am gyflwyno a gwerthuso gwybodaeth ychwanegol

PL/03849	**Amrywio Amod 3 o W/35339 (codi giatiau), Cartref Cynnes, Peniel, Caerfyrddin, SA32 7HT**

3.4 PENDERFYNWYD gwrthod y ceisiadau cynllunio canlynol am y rhesymau y manylwyd arnynt yn Adroddiad y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd::

PL/04748	**Dymchwel bloc stablau presennol (wedi'i adeiladu'n rhannol) ac adeiladu preswylfa angen lleol yn ei le (Ail-gyflwyno cais cynllunio PL/02285), Tir cyferbyn â Tŷ Liliwen, Nant-y-caws, Caerfyrddin**
PL/05060	**Preswylfa newydd gyda garej/tŷ allan, tir sy'n rhan o Clyttie Cochion, Llanpumsaint, Caerfyrddin, SA33 6JT** Cafwyd sylw gan yr aelod lleol gan gefnogi'r cais ar sail bod yr ymgeiswyr yn lleol, bod y teulu yn berchen ar y safle dan sylw, bod y ddau ymgeisydd yn gweithio'n lleol, bod gan y cais gefnogaeth y cyngor cymuned lleol, dyheadau'r ymgeisydd ar gyfer ffermio ar y tir, cadw pobl leol yn y gymuned, amddiffyn y Gymraeg a bywyd gwledig.

4. PERFFORMIAD Y GWASANAETH CYNLLUNIO - CHWARTER 3

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Perfformiad y Gwasanaeth Cynllunio ar gyfer Chwarter 3 ar gyfer y cyfnod rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2022 ar gyfer y Gwasanaeth Cynllunio ac , yn nodedig, yr Is-adran Rheoli Datblygu a Gorfodi. Roedd yr adroddiad yn cynnwys dangosyddion monitro perfformiad craidd ynghyd â data cymharol ar gyfer chwarteri blaenorol yn 2021/22.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.

5. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 8 RHAGFYR 2022

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 8 Rhagfyr 2022 yn gofnod cywir.

_____ _____

CHAIR **DATE**